# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, Nos Fawrth 11/05/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Mared Llywelyn Williams | Rhys Tudur |
| Rhys Llewelyn | Caren Jones | Gito Williams | Sharon Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Janice Evans, Lleucu Jones, Carys Roberts, Cai Rees Jones, Alaw Llewelyn Roberts, Gwynfor Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 13/04/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Mared Llywelyn Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Polisi 7 Parc Eryri –** Gruffydd Williams
   Mae gan Parc Cenedlaethol Eryri Bolisi sydd yn gwarchod tai traddodiadol sef Polisi 7, ac mae Gruffydd Williams yn gofyn i CTN yrru llythyr i Adran Bolisi a'r Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt fabwysiadu Polisi 7 er mwyn amddiffyn y tai traddodiadol yn yr ardal yma. Mae gan Cyngor Gwynedd tua 5 neu 6 o bolisiau sydd yn y Cynllun Unedol sydd yn gyfateb i bolisi 7 Parc Cenedlaethol Eryri ond yn amlwg ddim yn gweithio oherwydd bod gymaint o'r tai traddodiadol yma yn cael eu newid yn llwyr mewn ardaloedd fel Abersoch.
   Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i anfon llythyr at yr Adran Bolisi a'r Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i fabwysiadu Polisi 7 Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn crynhoi yr holl bolisiau sydd gan Cyngor Gwynedd yn bresennol i warchod tai traddodiadol.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Llewelyn

   **Llythyr Rhys Tudur i'r Cynghorau Cymuned/Tref –** Rhys Tudur
   Mae Rhys Tudur wedi rhoi llythyr at ei gilydd i'w anfon at gynghorau Cymuned/Tref a Sir, Cynghorwyr Sir ac aelodau'r Senedd yng Nghymru gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod rhithiol i drafod yr argyfwng ail gartrefi. Nid oes cyfarfod o'r fath wedi cael ei gynnal hyd yn hyn ac mae angen cydweithio gyda ardaloedd eraill yng Nghymru i gael y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth cyn gynted a bo'r modd. Bwriedir cynnal y cyfarfod cyntaf ar Mai 27ain a'r ail gyfarfod rhywbryd ym mis Mehefin.
   Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i anfon y llythyr at y Cynghorau Cymuned/Tref, Sir, Cynghorwyr Sir ac aelodau o'r Senedd.
   Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Caren Jones
   Pasiwyd yn unfrydol i gynnal cyfarfod rhithiol i drafod yr argyfwng ail gartrefi a gwahodd Cynghorau Cymuned/Tref, Sir, Cynghorwyr Sir ac aelodau o'r Senedd i fod yn rhan o'r cyfarfod.
   Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Gruffydd Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Fe fydd rhaid edrych i mewn i greu cyfrif zoom er mwyn cynnal y cyfarfod yma a cynnigiodd Gruffydd Williams fod CTN yn talu am y cyfrif. Cynnigiodd Rhys Tudur i gadeirio'r cyfarfod ac i edrych i mewn i'r cyfrif zoom a gweld beth fydd y gost.

5. **Gwenno –** Tafarn yr Heliwr
Cafwyd cais gan Gwenno Swyddog Datblygu Cymunedol Tafarn yr Heliwr i ymuno â'r cyfarfod i gyflwyno ei hun felly croesawyd Gwenno i'r cyfarfod gan y cadeirydd.
Diolchodd Gwenno am gael ymuno â'r cyfarfod a cyflwynodd ei hun gan rhoi crynodeb o'i swydd a'i bod yn edrych ymlaen i gael cyd-weithio gyda CTN.
Gofynnodd am ddiweddariad ar Rhandiroedd y Ddôl gan fod y prosiect yma o dan ei gofal hi rwan, eglurwyd iddi fod CTN yng nghanol sortio'r gwaith draenio tir ac yn gorfod dilyn cytundeb caeth i gael arian sydd yn ddyledus iddynt i ariannu'r gwaith yma felly ar y funud nid oes neb yn cael mynd ar y safle. Gofynnodd Gwenno os oedd map ar gael yn dangos faint o'r Rhandiroedd fydd ar gael i Dafarn yr Heliwr â'r prosiect gardd cymunedol ond eglurwyd iddi pan fydd y Rhandiroedd wedi cael eu draenio yna fe fydd rhaid cynnig y Rhandiroedd i'r bobol oedd hefo Rhandir o'r blaen ac yna gweld beth sydd ar ôl wedyn. Penderfynwyd cael trafodaeth am hyn o dan pwynt 11 ar yr agenda.
Mae Ifan Morgan Hunaniaeth yn awyddus i wneud pecyn ymwybyddiaeth iaith i Nefyn ar ôl gweld nad oedd gweithdai Menter Môn ddim yn union beth oedd pawb yn ei ddisgwyl ac mae Gwenno eisiau gweld beth ydi barn aelodau CTN ar hynny.
Penderfynwyd y buasai cynnal cyfarfod hefo Ifan Morgan Hunaniaeth yn syniad da a cynigiodd Rhys Tudur rhoi ebost at ei gilydd i Ifan Morgan i'r clerc ei basio ymlaen iddo.
Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Arfon Hughes

6. **Cyflwyniad ar 'Datblygiad Marshfield'**
Croesawodd y cadeirydd Dave Morgan ar ddechrau'r cyfarfod. Mi 'roedd o wedi dweud wrth y cadeirydd ymlaenllaw nad oedd am roi cyflwyniad heno ond yn hytrach eisiau bod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd i gael profiad o gyfarfod CTN, ond ar ddiwedd y cyfarfod fe benderfynnodd ddweud ychydig eiriau ar y datblygiad yma. Mae sefyllfa debyg i'r un mae CTN yn ei wynebu yn Ne Swydd Caerloyw ac mae nhw wedi ymateb drwy greu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol i adeiladu tai sydd yn cael eu gwerthu am bris rhesymol a'r pris rhesymol yna yn cael ei warchod am byth. Mae Chris Thomas o Sir Benfro yn defnyddio 'Marshfield' fel model ac mae posibilrwydd iddo fod yn fodel i CTN hefyd. Mae'r ymgyrchu yn wych ac mae angen gwneud hynny ond hefyd mae'n rhaid creu rhywbeth sy'n helpu i ddatrys y broblem ac mae hyn yn un ffordd o wneud hynny. Mae Liz Saville Robert wedi crybwyll y syniad yma yn barod ond i brynnu eiddo sydd yn stoc dai yn barod yn hytrach na adeiladu eiddo o'r newydd a'i wneud led led Llŷn hefo Cynghorau Cymuned/Tref eraill ond does neb wedi gwneud rhywbeth yn ei gylch hyd yn hyn.
Cynnigiodd Rhys Tudur i aelodau CTN ystyried gwahodd Liz Saville Roberts a Antur Aelhaearn, sydd wedi bod yn sôn bod angen Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol, a Dave Morgan i gyfarfod hefo aelodau CTN i drafod hyn.
Penderfyniad: y clerc i anfon gwybodaeth am 'Datblygiad Marshfield' i'r aelodau i gyd.

7. **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Mae'r cadeirydd wedi datgan yng nghyfarfod mis Hydref 2020 y buasai yn cario ymlaen fel cadeirydd tan y pwyllgor blynyddol ond y buasai wedyn yn pasio'r awenau i rhywun arall. Mae'r

cadeirydd wedi cael sgwrs hefo'r is-gaderirydd ac mae hi hefyd oherwydd pwysau gwaith yn dymuno pasio'r awenau i rywun arall felly mae angen penodi cadeirydd ac is-gadeirydd.
Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Rhys Tudur gymeryd y gadair ac eiliwyd y cynnig gan Rhys Llewelyn. Dywedodd Mared Llywelyn Williams fod Catrin Roberts wedi bod yn wych fel cadeirydd am y flwyddyn a hanner ddiwethaf ac mae hi'n teimlo y bydd Rhys Tudur yr un mor wych fel cadeirydd os y gwnaiff dderbyn.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gader i Rhys Tudur a derbyniodd Rhys Tudur.
Mae'r cadeirydd yn trosglwyddo'r awenau i Rhys Tudur ac yn dymuno yn dda iawn iddo ac yn falch iawn ei fod wedi derbyn y cynnig.
Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Mared Llywelyn Williams gario ymlaen fel is-gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Rhys Llewelyn.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i Mared Llywelyn Williams gario ymlaen fel is-gadeirydd a derbyniodd Mared Llywelyn Williams.
Diolchodd Catrin Roberts i'r Is-gadeirydd yr aelodau i gyd a'r clerc am yr holl gefnogaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf. Mae Catrin Roberts yn cytuno i gadeirio am weddill y cyfarfod gan nad yw Rhys Tudur yn gwybod y drefn am heno ac yn cymeryd trosodd yn y pwyllgor nesaf.

8. **Ffurflen Flynyddol 2020-2021**
Gan fod cymaint ar yr agenda heno penderfynwyd peidio a'i drafod heno a'i roi ar agenda mis nesaf.

9. **Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio:**
Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côd Ymddygiad Aelodau, Polisi Pryderon a Chwynion, Ffurflen Bryderon, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau.
Cafodd bawb gopi o'r holl ddogfennau drwy ebost i'w darllen cyn y cyfarfod.
Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd ac eithrio y Polisi Iaith.
Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Arfon Hughes
Penderfynwyd i adolygu y Polisi Iaith mis nesaf ond ei fod yn dal yn weithredol tan hynny.
Cynnig: Rhys Tudur    Eilio: Mared Llywelyn Williams

10. **Cae Glandwr –** Cadeirydd
Nid oedd y cadeirydd yn y cyfarfod diwethaf i drafod y mater felly cafwyd diweddariad ganddi. Yn dilyn gyrru ebost allan i ofyn am unrhyw wybodaeth ynglŷn a rhan o dir yng nghae Glandwr a werthwyd flynyddoedd yn ôl mae hi wedi derbyn mwy o wybodaeth gan aelodau CTN ac yn gwneud ymholiadau pellach ac yn aros am ymateb.

11. **Rhandiroedd y Ddôl –** Clerc
Yn gynharach yn y cyfarfod cafwyd cais gan Gwenno Tafarn yr Heliwr i ddod i gytundeb hefo CTN ynglŷn â faint o'r Rhandiroedd sydd ar gael i Tafarn yr Heliwr.
Ym mhellach i'r ebyst sydd wedi bod rhwng y clerc a'r adran eiddo nid oes gan yr adran eiddo wrthwynebiad i CTN roi mwy nac un Rhandir i Dafarn yr Heliwr ac 'roeddynt am ofyn i'r Adran

Gyfreithiol os y bydd angen cytundeb o'r newydd rhwng CTN a Tafarn yr Heliwr ar gyfer y Rhandiroedd fydd dan eu gofal nhw. Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan yr Adran Eiddo. Mynegwyd hefyd i Dafarn yr Heliwr roi ar bapur beth yn union maent yn ei ofyn gan CTN unwaith y bydd ymateb wedi ei dderbyn gan yr Adran Gyfreithiol a'r gwaith draenio wedi ei wneud ar y tir.
Penderfyniad: y clerc i fynd ar ôl yr Adran Eiddo i weld os ydynt wedi cael ymateb gan yr Adran Gyfreithiol parthed cael cytundeb cyfreithiol hefo Tafarn yr Heliwr a CTN.
Derbyniwyd 2 tendar am ddraenio Rhandiroedd y Ddôl.
Penderfyniad: derbyn pris Gareth Gough Williams. Y clerc i gysylltu gyda Aneurin Môn Parry i ddweud wrtho bod CTN wedi cytuno ar amcanbris ac i weld beth yw'r cam nesaf. Y clerc hefyd i gysylltu hefo Gareth Gough Williams i ddweud fod CTN yn derbyn ei amcanbris ond y bydd angen aros am ymateb gan Aneurin Môn Parry cyn cychwyn ar y gwaith ac hefyd cymeryd i ystyriaeth y cyfnod nythu.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gito Williams

12. **Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc
**Estyniad i'r Fynwent**
Nid oes diweddariad ar y mater gan fod y clerc yn dal i aros am ymateb gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a pwy sydd yn delio hefo 'compulsory purchase'.

13. **Tafarn yr Heliwr –** cais am drwydded eiddo
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i ganiatau'r drwydded.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Tudur

14. **Diffibs Cyngor Tref Nefyn –** Clerc
Mae pris am 3 diffib newydd wedi cal ei roi ar y praesept ar gyfer 2021-2022. Mae'r diffib sydd yn Ysgol Morfa wedi cael ei ddefnyddio o leiaf 3 gwaith mewn cyfnod o fis ac felly angen batri a padiau newydd sy'n mynd i gostio oddeutu £200.00 bob tro. Mae'r diffibs newydd yn cael eu cyflenwi gan y Gwasanaeth Ambiwlans ac ni fydd angen talu am badiau na batris newydd i'r diffibs yma gan eu bod yn dod yn rhad ac am ddim bob tro mae angen rhai newydd gan y Gwasanaeth Ambiwlans felly mae'r clerc isho gordro 3 newydd cyn gynted a phosibl er mwyn osgoi prynnu batri a padiau newydd i'r un yn Ysgol Morfa.
Penderfyniad: y clerc i ordro 3 diffib newydd cyn gynted a phosibl.

15. **Problem sbwriel –** Bwletin Bach AGW
Pan gafodd yr aelodau y bwletin yma fe atebodd Sharon Williams yn dweud fod sbwriel yn broblem fawr yn Nefyn ac fe anfonodd lluniau i brofi hyn ac y buasai'n dda o beth i CTN gymeryd rhan yn y fenter hon ond erbyn rwan mae'r dyddiad cau wedi bod. Cynnigiodd Gruffydd Williams fod CTN yn rhoi rhywbeth allan drwy'r clerc i ddweud wrth drigolion Nefyn fod CTN am roi swm ar y praesept y flwyddyn nesaf i gyflogi unigolyn i fynd o amgylch i godi'r sbwriel i fyny. Cynnigiodd Sharon Williams fod CTN hefyd yn rhannu'r lluniau yma er mwyn i'r cyhoedd gael gweld maint y broblem a codi ymwybyddiaeth ohonno.
Penderfyniad: yr aelodau i anfon lluniau i'r clerc iddi eu rhoi i fyny ar wefan CTN gyda neges i godi ymwybyddiaeth o'r broblem

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

16. **Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng Flaen 5ed Gorffennaf 2021** – e-bost Un Llais Cymru dyddiedig 4/1/2021
    Gan fod yr amser yn mynd yn brin mae'r cadeirydd am ebostio bawb ynglŷn â'r eitem yma yn ystod yr wythnos.

17. **Cyflog ychwaneogl i'r clerc** – Cadeirydd
    Mae'r clerc wedi bod yn gwneud cais am grant canol trefi, nid yw hyn yn swydd ddisgrifiad y clerc ac mae clerc blaenorol wedi cael tâl ychwanegol am wneud ceisiadau grantiau felly mae Gruffydd Williams eisiau i'r clerc gael tâl ychwanegol ar gyfer hyn.
    Penderfyniad: pasiwyd i dalu'r tâl ychwanegol yma i'r clerc ac hefyd unrhyw waith ychwanegol arall o hyn allan ac i'r clerc gadw cofnod o hyn bob mis.
    Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Sharon Williams

18. **Tirlithriad** – Cadeirydd
    Mae'r cadeirydd wedi cysylltu hefo Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd ac amryw o bobol eraill ynglŷn â'r tirlithriad yn Nefyn a'r diffyg parodrwydd i helpu allan ac yn ei ymateb 'roedd yn amlwg nad oedd yn hapus hefo'r llythyr.
    Mae tirlithriad bach wedi digwydd ar y lôn sydd yn mynd i lawr i'r traeth ym Morfa ers y gaeaf ac nid oes dim wedi ei wneud i'w glirio oddi yna er bod y cynghorydd lleol wedi bod ar eu holau sawl gwaith. Mae'r cadeirydd rwan am yrru llythyr arall at y Prif Weithredwr hefo lluniau o'r ddau dirlithriad gan dynnu sylw eto nad oes dim wedi ei wneud yn eu cylch. Mae Gruffydd Williams wedi cael gwybod fod Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi bod allan yn Nefyn yn gwneud asesiadau ond nid ydynt am wneud adroddiad dim ond lluniau o'r llefydd sydd wedi syrthio a'r llefydd sydd mewn perygl o syrthio eto yn y dyfodol. Dywedodd Arfon Hughes ei fod o eisiau gwybod beth mae effaith y 'breakwater' wedi gael ar hyn i gyd gan fod cerrig yn arfer bod ar safle'r tirlithriad flynyddoedd yn ôl tua 6/8 troedfedd o uchel ac nid oedd y môr yn gallu mynd yn agos at y clogwyn o gwbwl ac maent i gyd wedi mynd rwan.
    Penderfyniad: y clerc i yrru ebost at Cyngor Gwynedd i ofyn am adroddiad manwl ar y tirlithriad yn Nefyn a'r clerc i yrru ebost i Cyngor Gwynedd â'r Ymddiriedoaleth Genedlaethol ynglŷn â'r tirlithriad ar y lôn sy'n mynd lawr i'r traeth yn Morfa.
    Mae Gruffydd Williams wedi cael cadarnhad y bydd traeth Nefyn yn cael yr un amodau goruchwiliaeth ac sydd yn arferol ac yn cychwyn Sulgwyn, nid yw yn gwybod beth sy'n digwydd yn Morfa felly fe fydd rhaid mynd ar ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gael gwybod beth yw'r ddarpariaeth goruchwiliaeth ar gyfer traeth Morfa.
    Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn beth fydd y ddarpariaeth ar gyfer traeth Morfa yr haf yma.

19. **Zurich Municipal** – Adnewyddu cytundeb tymor hir:
    5 mlynedd - £2049.05
    3 mlynedd - £2145.77
    Blwyddyn - £2242.60
    Penderfyniad: derbyn y cytundeb 5 mlynedd gan ei fod tua £200 yn rhatach bob blwyddyn.
    Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Rhys Tudur

20. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

Dim.

**21. Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0382/42/DT** – Awel y Môr, Lôn Bridin, Morfa Nefyn – Dymchwel modurdy a chodi adeilad yn ei le i'w ddefnyddio fel anecs preswyl ynghŷd â storfa/cawodydd.
Penderfyniad: Gwrthod – gormod o unedau gwyliau yn yr ardal.

Ceisiadau Diweddarach
**C21/0438/42/DT** – Tŷ Newydd, Mynydd Nefyn – Estyniad unllawr i'r ystafell fyw.
Penderfyniad: Gwrthod – amharu ar golygfeydd i fewn ac allan o'r AHNE.

**22. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1030.29
- John Gwynfor Jones – angladd Griffith Eric Dobson - £450.00
- Taliad y Cadeirydd - £400.00
- Cliff Hughes – Taliad rhif 1 contract - £1075.00 + gwaith ychwanegol - £435.24 = £1510.24
- Llanw Llŷn – Hysbyseb tendar Mynwent Nefyn - £9.90
- E-on Next – Trydan Siop Siarad mis Ebrill - £108.73
- John Gwynfor Jones – angladd Jane Eluned Roberts - £75.00
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Ebrill - £103.38

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Sharon Williams

**23. Taliadau wedi eu derbyn:**

- Praesept - £38,625.00
- Ad-daliad TAW 2020-2021 - £2,506.74
- G W Parry – angladd Elizabeth Evans - £390.00

Diolchodd yr aelodau i Catrin Robets am ei gwaith fel cadeirydd dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf.